

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Adroddiad i:	CYNGOR SIR
Dyddiad:	28 CHWEFROR 2018
Pwnc:	DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2018/19
Aelod(au) Portffolio:	CYNGHORYDD J. GRIFFITH
Pennaeth Gwasanaeth:	MARC JONES (EST. 2601)
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	GARETH ROBERTS (FFÔN: EST. 2675) CLAIRE KLIMASZEWSKI (FFÔN : EST.1865)

Natur a Rheswm am Adrodd

Cyflwynir yr adroddiad hwn i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arferion gorau yn unol â Chôd Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth (CIPFA) ar faterion Rheoli Trysorlys. Mae'r côd yn argymhell y dylai'r Aelodau sgrwtineiddio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys cyn iddo gael ei fabwysiadu (sy'n cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol, Datganiad Polisi DRI Blyneddol, y Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys a'r Cynllun Dirprwyo ar Reoli Trysorlys). Yn unol â chynllun dirprwyo'r Awdurdod, y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon ac mae Atodiad A o'r adroddiad hon wedi ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 13 Chwefror 2018. Mae'r adroddiad yma yn cydymffurfio hefo Cynllun Dirprwyo ar Reoli Trysorlys 2017/18, ac mae angen i'r Pwyllgor Gwaith dderbyn ac adolygu'r adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo. Mae'r adroddiad yma yn cydfynd a'r adroddiadau Cyllideb Cyfalaf a Refeniw fel rhan o broses gosod y gyllideb 2018/19.

A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

1. Mae'r adroddiad a'r Atodiad (fel y manylir yn yr rhan uchod, rhannau 2 i 4 isod ac yn cynnwys Atodiad A) wedi ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 13 Chwefror 2018 a'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Chwefror 2018. Penderfynodd y Pwyllgorau i :-
 - Nodi cynnwys yr adroddiad eglurhaol hwn;
 - Cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (gan gynnwys y Dangosyddion Pwyllgor a Thrysorlys) [Atodiad A] ar gyfer 2018/19.Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio i beidio pasio unrhyw sylw nac argymhelliad ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith, penderfynwyd i basio ymlaen i'r Pwyllgor yma heb sylw pellach.
2. Mae Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (Adran 7) yn argymhell y dylid cymeradwyo, dogfennu a monitro Arferion Rheoli Trysorlys (ART) yr Awdurdod. Mae'n dweud hefyd mai mater ar gyfer penderfyniad lleol yw natur a maint ymwneud corff cyfrifol unrhyw sefydliad o ran cymeradwyo a monitro ei Bolisiau Rheoli Trysorlys a'r atodlenni cysylltiedig ac mae'n cydnabod hefyd y gellir dirprwyo'r swyddogaeth hon mewn rhai sefydliadau i'r swyddog cyfrifol. Ym mhob achos, dylai fod yn destun sgrwtini gan y corff cyfrifol yn dilyn argymhellion gan y swyddog cyfrifol. Mae'r Awdurdod hon wedi creu ART wedi'i ddogfennu, a cafwyd ei awdurdodi gan y Pwyllgor Archwilio ar 6 Rhagfyr 2016. Mae yna un newid arfaethedig i'r ART sydd angen ei gymeradwyo gan y Pwyllgor yma. Y newid yw i gynyddu isafswm balans arian parod o £6m i £6.5m yn unol a'r polisi arian wrth gefn diweddaraf a gafodd ei gymeradwyo.
3. O ran diweddariadau i'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, yr unig newid y bwriedir ei wneud i egwyddorion a pholisiau craidd Datganiad 2017/18 yw newid Polisi Darpariaeth Refeniw Isafswm (DRI). Cwblhaodd Cynghorwyr Rheoli Trysorlys Allanol yr awdurdod (Link – cynt yn cael eu galw yn Capita Asset Management Services) adolygiad o bolisi DRI y Cyngor. Mae'r egwyddorion sy'n ymddangos yn eu adroddiad yn gynnwysedig yn y polisi diwygedig.

Bydd y polisi yn arwain at ffordd gyson at gostau DRI rhwng fenthycia cefnogol a di gefnogaeth. Mae'r costau polisi cyfredol DRI yn 4% o Ofyniad Cyllido Cyfalaf am brosiectau sy'n cael eu ariannu o fenthycia a chefnogaeth. Mae cost DRI ar asedau sy'n cael eu ariannu'n ddi gefnogaeth yn seiliedig ar fywydau economaidd yr asedau. Caniateir un o ddau ddull oes ased ar gyfer prosiectau sydd wedi eu cyllido gan fenthycia di-gefnogaeth. Nid yw'n optiw'n i godi 4% o'r GCC ar fenthyciadau di-gefnogaeth fel a ganiateir hefo benthyciadau gyda chefnogaeth. Mae'r dull oes ased yn ddull doeth ac yn cyd fynd hefo'r gost DRI yn erbyn referniw efo oes ddisgwyledig yr ased. Felly, fe argymhellir fod y polisi DRI yn cael ei ddiweddarau fel bod y gost DRI, yn mynd ymlaen ar gyfer benthycia gyda chefnogaeth a benthycia di-gefnogaeth yn ddibynol ar oes yr ased. Bydd y cynnig yn arwain at gost DRI llai ar gyfer y 10 i 15 mlynedd nesaf, ond fydd yn uwch hyd at blwyddyn 50. Bydd y polisi diwygedig yn myned yn ôl i 2008 i sicrhau fod gost yn gywir ac yn gyson rhwng y gost DRI ar gyfer gwariant wedi ei gyllido drwy fenthycia gyda chefnogaeth a benthycia di-gefnogaeth. Gweler Atodiad 2 ar gyfer y polisi diwygedig. Mae hwn yn amodol l ymgyngoriad a chymeradwyaeth gan yr Archwiliwr Allanol.

4. Cyfanswm benthyciadau allanol y Cyngor ar 7 Tachwedd 2017, oedd £111.4m, disgwylir mai £118.0m fydd y sefyllfa ar 31 Mawrth, 2018. Mae'r benthyciadau yn cynnwys rhai aeddfed sefydlog a rhai blwydd-dal sefydlog. Ar 7 Tachwedd 2017, roedd y benthyciadau aeddfed sefydlog yn £111.2m gydag oes gyfartalog o 23 blynedd a graddfa log o 5.15% ar gyfartaledd. Roedd y benthyciadau blwydd-dal sefydlog yn £0.2m gydag oes gyfartalog o 8 mlynedd a graddfa log o 9.44% ar gyfartaledd. Rhagwelir mai £5.9 fydd cost benthycia, sef y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau cyfredol, ar gyfer 2017/18 a hynny ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (£3.9m) a'r CRT (£2.0m). Yn ogystal, bydd Darpariaeth Isafswm Referniw (MRP), sef taliad referniw i dalu elfen o'r gwariant cyfalaf sydd wedi cronni bob blwyddyn (Atodiad 2). Yn 2017/18, bydd y taliad hwn yn £4.7m ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (£3.8m) a'r CRT (£0.9m). Golyga hyn y bydd y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (sef yr angen sylfaenol i fenthycia i gyllido'r rhaglen gyfalaf) yn £138.1m ar ddiwedd y flwyddyn ac y bydd y Cyngor wedi benthycia'n fewnol £20.1m erbyn diwedd y flwyddyn.

Ar 7 Tachwedd 2017, roedd cyfanswm buddsoddiadau'r Cyngor yn £13.4m, gyda graddfa dychwelyd gyfartalog o 0.15% a'r cyfanswm cyfartalog ar gyfer y flwyddyn hyd yma yw £16.6m. Wrth i fenthycia mewnlol gynyddu, mae balansau buddsoddiadau'n lleihau.

5. Argymhellion:

- Nodi cynnwys yr adroddiad eglurhaol hwn;
- Cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2018/19 (sy'n cynnwys y Strategaeth Buddsoddi Blynyddol, Polisi DRI, Polisi Datganiad Rheoli Trysorlys Blynyddol a'r Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys) [Atodiad A]; a
- Chymeradwyo'r newid yn ART, i gynyddu'r isafswm balans arian parod o £6m i £6.5m i adlewyrchu'r cynydd yn isafswm balance yr arian wrth gefn cyffredinol.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

d/b

C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

I gydymffurfio hefo proses gosod cyllideb yr awdurdod a Cynllun Dirprwyo ar Reoli Trysorlys.

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

DD - DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Amherthnasol – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrrff allanol eraill	
E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthlodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	
F - Atodiadau:		
Adodiad A : Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys a Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys ar gyfer 2018/19		
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
<ul style="list-style-type: none"> Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18 (fel a cymeradwywyd gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2017) 		

DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS**DATGANIAD AR Y STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL, Y DATGANIAD POLISI AR Y DDARPARIAETH REFENIW ISAF (DRI) A'R DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS AR GYFER 2018/19****1. Rhagarweiniad****1.1 Cefndir**

Rhaid i'r Cyngor weithredu cyllideb gytbwys sy'n golygu bod rhaid i gyfanswm yr incwm sy'n ddyledus yn ystod y flwyddyn ariannol fod yn ddigonol i gwrdd â gwariant a hefyd, rhaid i'r arian gwirioneddol a ddaw i mewn Fod yn ddigonol i gydbwysu'r arian a fydd yn mynd allan. Rhan allweddol o'r gweithgareddau rheoli trysorlys yw sicrhau bod y llif arian hwn wedi ei gynllunio'n ddigonol a bod arian ar gael pan mae ei angen. Caiff arian sydd dros ben ei fuddsoddi mewn gwrth-bartion neu offerynnau risg isel sy'n cydfynd â pholisi'r Cyngor i leihau risg gan sicrhau hylifedd digonol cyn ystyried y dychweliad ar fuddsoddiadau.

Ail brif swyddogaeth y gwasanaeth rheoli trysorlys yw cyllido cynlluniau cyfalaf y Cyngor. Mae'r cynlluniau cyfalaf hyn yn darparu canllawiau ar gyfer anghenion benthyca'r Cyngor, sef cynllunio llif arian ar gyfer y tymor hwy mewn gwirionedd er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau o ran gwariant cyfalaf. Gall rheoli'r arian tymor hwy olygu trefnu benthyciadau ar gyfer y tymor hir neu'r tymor byr neu ddefnyddio gwargedion llif arian am dymor hwy. O bryd i'w gilydd, gellir ailstrwythuro dyledion i gwrdd â risgiau neu amcanion cost y Cyngor.

Yn benodol, rhaid i awdurdod lleol gyfrifo ei ofynion cyllidebol ar gyfer pob blwyddyn ariannol i gynnwys y costau refeniw sy'n llifo o benderfyniadau ynghylch cyllido cyfalaf. Mae hyn yn golygu cyfyngu:-

- cynnydd mewn costau refeniw yn sgil ffioedd llog uwch, oherwydd benthyca ychwanegol i gyllido gwariant cyfalaf, ac
- unrhyw gynnydd mewn costau rhedeg prosiectau cyfalaf newydd, i lefel sy'n fforddiadwy o ran incwm rhagamcanedig y Cyngor.

Mae'r Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys yn diffinio'r polisiau ac amcanion y gweithgareddau rheoli trysorlys. Gweler Atodiad 10.

1.2 Gofynion o ran cyflwyno adroddiadau

Rhaid i'r Cyngor dderbyn a chymeradwyo o leiaf dri phrif adroddiad bob blwyddyn sy'n ymgorffori amrediad o bolisiau, amcangyfrifon a ffigyrau gwirioneddol. Rhaid i'r adroddiadau hyn gael eu sgrifftinieddio'n ddigonol gan bwyllgor cyn cael eu hargymell i'r Cyngor. Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth hon.

Dangosyddion Pwyllgor a Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Trysorlys - Mae'r adroddiad cyntaf a'r un pwysicaf yn cynnwys:-

- y Strategaeth Rheoli Trysorlys (sut bydd y buddsoddiadau a'r benthyciadau'n cael eu trefnu) gan gynnwys dangosyddion rheoli trysorlys;
- Strategaeth Fuddsoddi (canllawiau ynghylch sut y dylid rheoli buddsoddiadau);
- Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (sut mae gwariant cyfalaf gweddilliol yn cael ei drosglwyddo i refeniw dros gyfnod o amser); a
- Datganiad ar y Polisi Rheoli Trysorlys (diffiniad o'r polisiau ac amcanion y swyddogaeth rheoli trysorlys); a
- Cynlluniau cyfalaf (gan gynnwys y dangosyddion darbodus cysylltiedig).

Adroddiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn - Bydd hwn yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ynghylch cynnydd o ran y sefyllfa gyfalaf, gan ddiwygio'r dangosyddion pwylllog yn ôl yr angen gan nodi a yw'r strategaeth trysorlys yn cwrdd â'i amcanion ynteu a oes angen adolygu unrhyw bolisiau.

Adroddiad Trysorlys Blyneddol – Yn hwn, ceir manylion ynghylch detholiad o ddangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol a gweithgareddau rheoli trysorlys gwirioneddol o gymharu â'r amcangyfrifon yn y strategaeth.

1.3 Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2018/19

Mae'r strategaeth ar gyfer 2018/19 yn ymwneud â dau brif faes:-

Materion Cyfalaf

- Y cynlluniau cyfalaf a'r dangosyddion pwylllog; a
- y strategaeth darpariaeth refeniw isaf (DRI).

Materion Rheoli Trysorlys

- y sefyllfa gyfredol o ran y trysorlys;
- dangosyddion rheoli trysorlys a fydd yn cyfyngu ar risg a gweithgareddau trysorlys y Cyngor;
- y rhagolygon o ran cyfraddau llog;
- y strategaeth fenthycu;
- polisi ar fenthycu cyn i'r angen godi;
- ail-raglennu dyledion;
- y strategaeth fuddsoddi;
- polisi teilyngdod credyd; a
- polisi ar ddefnyddio darparwyr gwasanaeth allanol.

Mae'r elfennau hyn yn cwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2003, Côt Darbodus CIPFA, Canllawiau DRI Llywodraeth Cymru, Côt Rheoli Trysorlys CIPFA a Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

1.4 Hyfforddiant

Dan Côt CIPFA mae'n ofynnol fod y swyddog cyfrifol yn sicrhau bod Aelodau â chyfrifoldeb am reoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant digonol mewn materion rheoli trysorlys. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i Aelodau sy'n gyfrifol am sgrwtini. Er mwyn cefnogi aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn eu swyddogaeth sgrwtini, cafodd aelodau'r pwyllgor hyfforddiant ar faterion rheoli trysorlys gan yr ymgynghorwyr rheoli trysorlys penodedig ar 9 Tachwedd 2016. Bydd hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu pan fydd angen hynny.

Mae anghenion hyfforddi swyddogion rheoli trysorlys yn cael eu hadolygu ac yn cael sylw'n rheolaidd.

1.5 Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys

Mae'r Cyngor yn defnyddio Y Grŵp Link fel ymgynghorwyr allanol ar faterion rheoli trysorlys. Yn unol â rheoliadau caffael, cafodd y tendr ar gyfer y gwasanaeth ymgynghori ar Reoli Trysorlys ei hysbysebu ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2019 gydag opsiwn i ymestyn y cytundeb am 2 flynedd. Capita Asset Services gyflwynodd y tendr llwyddiannus.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli trysorlys yn fater i'r sefydliad bob amser a bydd yn sicrhau nad yw'n dibynnu gormod ar ein darparwyr gwasanaeth allanol.

Mae'n cydnabod hefyd bod gwerth mewn cyflogi darparwyr allanol ar gyfer gwasanaethau rheoli trysorlys er mwyn cael mynediad i adnoddau a sgiliau arbenigol. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod telerau eu penodiad a'r dulliau a ddefnyddir ar gyfer asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n briodol a'u hadolygu'n rheolaidd hefyd.

Cafodd Capita Asset Service ei werthu i Grŵp Y Link, ond, ni fydd y gwasanaethau a ddarperir yn newid o dan y berchnogaeth newydd.

1.6 Mabwysiadu'r Côt

Rhaid i'r Cyngor nodi a yw wedi mabwysiadu Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys. Mae'r Côt cyfredol, sef un 2011 eisoes wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ac o'r herwydd, nid oes angen diweddariad ar gyfer 2018/19. Yn ogystal, mae'r awdurdod yn dilyn y canllawiau yng Nghôd Darbodus CIPFA 2013 sy'n ategu'r côd ymarfer ar Reoli Trysorlys. Fodd bynnag, mae'r Cod Pwylllog â'r Cod Rheoli Trysorlys wedi cael eu adolygu a'u cyhoeddi ym mis Ionawr 2018. Mae'r cod yn ystyried bod y flwyddyn 2018/19 yn flwyddyn drosiannol, gyda gweithrediad llawn yn 2019/20.

2. Ystyriaethau Cyfalaf

Cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor yw gyrrwyr allweddol gweithgareddau rheoli trysorlys. Caiff allbwn y cynlluniau gwariant cyfalaf ei adlewyrchu yn y dangosyddion darbodus sydd wedi eu dylunio i gynorthwyo'r aelodau i gael trosolwg o'r cynlluniau gwariant cyfalaf a'u cadarnhau.

Mae'r Dangosyddion Pwylllog yn crynhoi cynlluniau gwariant cyfalaf y Cyngor, y rhai sydd wedi eu cytuno'n barod a rhai sy'n ffurfio rhan o'r cylch cyllideb yma. Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r rhagolygon gwariant cyfalaf.

Caiff y rhagamcanion ynghylch gwariant cyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2017/18 i 2020/21 eu hadlewyrchu yn y Dangosyddion Darbodus (Atodiad 11). Mae'r gwariant rhagamcanedig ar gyfer 2018/19 i 2020/21 yn seiliedig ar y rhaglen gyfalaf ddrafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer ei chymeradwyo ar 30 Hydref 2017, yn ogystal a chynllun ddrafft Band B or Cynllun Ysgolion 21ain Ganrif. Mae'r rhagamcanion ar gyfer y blynyddoedd hynny hefyd yn cynnwys y rhagdybiaeth y bydd llithriad o 2017/18 yn cael ei wario'n llawn yn 2018/19.

Bydd y rhaglenni'n gyffredinol yn cael eu cyfyngu i'r hyn sy'n fforddiadwy, o ran y gwariant cyfalaf gwirioneddol ac o ran y goblygiadau refeniw (gweler 1.1 uchod). Gweler y dangosyddion darbodus yn Atodiad 11. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cynlluniau cyfalaf uchod a'r modd y caiff y cynlluniau hyn eu cyllido drwy adnoddau cyfalaf neu refeniw. Bydd unrhyw ddiffyg o ran adnoddau'n arwain at yr angen i fenthycu, fel y gwelir yn nhabl 3.1.

Gwariant Cyfalaf £'000m	2016/17 Gwirioneddol	2017/18 Amcangyfrif	2018/19 Amcangyfrif	2019/20 Amcangyfrif	2020/21 Amcangyfrif
Dim CRT	28,030	22,030	38,800	34,340	16,060
CRT	8,610	11,490	13,820	15,200	15,340
Cyfanswm	36,640	33,520	52,620	49,540	31,400
Ariennir drwy:					
Derbyniadau cyfalaf	5,240	3,100	1,260	500	500
Grantiau cyfalaf	14,800	11,360	30,800	25,230	8,940
Arian wrth gefn Cyfalaf	580	510	300	0	0
Refeniw	5,050	8,830	11,160	9,040	9,380
Benthyciad	150	1,000	0	0	0
Angen cyllido net am y flwyddyn	10,820	8,720	9,100	14,770	12,580

3. Benthycia

Bydd y cynlluniau gwariant cyfalaf a nodir yn rhan 2 (uchod) yr adroddiad hwn yn darparu manylion ynghylch gweithgaredd gwasanaeth y Cyngor. Mae'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn sicrhau bod arian parod y Cyngor wedi ei drefnu yn unol â'r codau proffesiynol perthnasol, i sicrhau fod arian parod digonol ar gael i gwrdd â'r gweithgaredd gwasanaeth yma. Bydd hyn yn cynnwys trefnu'r llif arian parod a, lle mae'r cynlluniau cyfalaf ei angen, trefnu'r cyfleusterau benthycia priodol. Mae'r strategaeth yn rhoi sylw i'r dangosyddion trysorlys / darbodus perthnasol, y sefyllfa o ran dyledion rwan ac yn y dyfodol, a'r strategaeth fuddsoddi flynyddol.

3.1 Gofynion ar gyfer Benthycia yn Awr ac i'r Dyfodol a Benthyciadau Gwirioneddol

Mae'r symudiadau a ragwelir o ran gofynion cyllid cyfalaf y Cyngor fel a ganlyn:-

AMCANGYFRIF O'R SYMUDIADAU YN Y GOFYNION CYLLIDO CYFALAF A BENTHYCA NEWYDD 2017/18 i 2020/21				
	2017/18 Rhagamcanedig £'000	2018/19 Amcangyfrif £'000	2019/20 Amcangyfrif £'000	2020/21 Amcangyfrif £'000
Symudiad yn y Gofyn am Gyllid Cyfalaf				
Benthycia newydd i gefnogi gwariant cyfalaf				
<i>Benthycia gyda Chefnogaeth</i>	2,131	4,422	4,370	3,959
<i>Benthycia Di-gefnogaeth</i>	6,583	4,679	10,404	8,620
Cyfanswm	8,714	9,101	14,774	12,579
<i>Gostwng gan: Darpariaeth Refeniw Isaf a derbyniadau cyfalaf a roddwyd o'r neilltu</i>	(4,667)	(3,223)	(3,328)	(3,584)
Symudiad Net yn y GCC gyllid Cyfalaf	4,047	5,878	11,446	8,995
Symudiadau posib yn y benthyciadau gwirioneddol				
Symudiadau yn y GCC (uchod)	-	5,878	11,446	8,995
Allanoli benthycia mewnol cyn 2017/18	-	20,100	-	-
Benthycia newydd	-	5,000	5,000	4,500
Benthycia newydd posib Cyfanswm	-	30,978	16,446	13,495

3.2 Rhagolygon o ran Cyfraddau Llog

Mae'r Cyngor wedi penodi Capita Asset Services fel ei ymgynghorydd trysorlys a rhan o'r gwasanaeth yw cynorthwyo'r Cyngor i lunio barn ar gyfraddau llog. Yn Atodiad 3, dygir ynghyd nifer o ragolygon cyfredol y Ddinas ar gyfer cyfraddau llog tymor byr (Cyfradd y Banciau) a chyfraddau sefydlog tymor hwy. Yn y tabl isod, ceir barn Capita.

Cyfartaledd Blynyddol (%)	Cyfraddau Banc (%)	Cyfraddau Benthycu BBGC (yn cynnwys addasiad graddfa sicrwydd)		
		5 mlynedd	25 mlynedd	50 mlynedd
Rhagfyr 2017	0.50	1.50	2.80	2.50
Mawrth 2018	0.50	1.60	2.90	2.60
Mehefin 2018	0.50	1.60	3.00	2.70
Medi 2018	0.50	1.70	3.00	2.80
Rhagfyr 2018	0.75	1.80	3.10	2.90
Mawrth 2019	0.75	1.80	3.10	2.90
Mehefin 2019	0.75	1.90	3.20	3.00
Medi 2019	0.75	1.90	3.20	3.00
Rhagfyr 2019	1.00	2.00	3.30	3.10
Mawrth 2020	1.00	2.10	3.40	3.20
Mehefin 2020	1.00	2.10	3.50	3.30
Medi 2020	1.25	2.20	3.50	3.30
Rhagfyr 2020	1.25	2.30	3.60	3.40
Mawrth 2021	1.25	2.30	3.60	3.40

As expected, the Monetary Policy Committee (MPC) delivered a 0.25% increase in Bank Rate at its meeting on 2 November. This removed the emergency cut in August 2016 after the EU referendum. The MPC also gave forward guidance that they expected to increase Bank rate only twice more by 0.25% by 2020 to end at 1.00%. The Link Asset Services forecast as above includes increases in Bank Rate of 0.25% in November 2018, November 2019 and August 2020.

The overall longer run trend is for gilt yields and PWLB rates to rise, albeit gently. It has long been expected, that at some point, there would be a more protracted move from bonds to equities after a historic long-term trend, over about the last 25 years, of falling bond yields. The action of central banks since the financial crash of 2008, in implementing substantial Quantitative Easing, added further impetus to this downward trend in bond yields and rising bond prices. Quantitative Easing has also directly led to a rise in equity values as investors searched for higher returns and took on riskier assets. The sharp rise in bond yields since the US Presidential election in November 2016 has called into question whether the previous trend may go into reverse, especially now the Fed has taken the lead in reversing monetary policy by starting, in October 2017, a policy of not fully reinvesting proceeds from bonds that it holds when they mature.

Until 2015, monetary policy was focused on providing stimulus to economic growth but has since started to refocus on countering the threat of rising inflationary pressures as stronger economic growth becomes more firmly established. The Fed. has started raising interest rates and this trend is expected to continue during 2018 and 2019. These increases will make holding US bonds much less attractive and cause their prices to fall, and therefore bond yields to rise. Rising bond yields in the US are likely to exert some upward pressure on bond yields in the UK and other developed economies. However, the degree of that upward pressure is likely to be dampened by how strong or weak the prospects for economic growth and rising inflation are in each country, and on the degree of progress towards the reversal of monetary policy away from quantitative easing and other credit stimulus measures.

From time to time, gilt yields – and therefore PWLB rates - can be subject to exceptional levels of volatility due to geo-political, sovereign debt crisis and emerging market developments. Such volatility could occur at any time during the forecast period.

Economic and interest rate forecasting remains difficult with so many external influences weighing on the UK. The above forecasts (and MPC decisions) will be liable to further amendment depending on how economic data and developments in financial markets transpire over the next year. Geopolitical developments, especially in the EU, could also have a major impact. Forecasts for average investment earnings beyond the three-year time horizon will be heavily dependent on economic and political developments.

The overall balance of risks to economic recovery in the UK is probably to the downside, particularly with the current level of uncertainty over the final terms of Brexit.

Downside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates currently include:

- Bank of England monetary policy takes action too quickly to raise Bank Rate and causes UK economic growth, and increases in inflation, to be weaker than we currently anticipate.*
- Geopolitical risks, especially North Korea., but also in Europe and the Middle East, which could lead to increasing safe haven flows.*
- A resurgence of the Eurozone sovereign debt crisis, possibly Italy, due to its high level of government debt, low rate of economic growth and vulnerable banking system.*
- Weak capitalisation of some European banks.*
- The result of the October 2017 Austrian general election is likely to result in a strongly anti-immigrant coalition government. This could provide major impetus to other, particularly former Communist bloc countries, to coalesce to create a major block to progress on EU integration and centralisation of EU policy. This, in turn, could spill over into impacting the Euro, EU financial policy and financial markets.*
- Rising protectionism under President Trump*
- A sharp Chinese downturn and its impact on emerging market countries*

The potential for upside risks to current forecasts for UK gilt yields and PWLB rates, especially for longer term PWLB rates include: -

- The Bank of England is too slow in its initial pace and strength of increases in Bank Rate and, therefore, allows inflation pressures to build up too strongly within the UK economy, which then necessitates a later rapid series of increases in Bank Rate faster than we currently expect.*
- UK inflation returning to sustained significantly higher levels causing an increase in the inflation premium inherent to gilt yields.*
- The Fed causing a sudden shock in financial markets through misjudging the pace and strength of increases in the Fed. Funds Rate and in the pace and strength of reversal of Quantitative Easing, which then leads to a fundamental reassessment by investors of the relative risks of holding bonds, as opposed to equities. This could lead to a major flight from bonds to equities and a sharp increase in bond yields in the US, which could then spill over into impacting bond yields around the world.*

Investment and borrowing rates

- Investment returns are likely to remain low during 2018/19 but to be on a gently rising trend over the next few years.*

- *Borrowing interest rates increased sharply after the result of the general election in June and then also after the September MPC meeting when financial markets reacted by accelerating their expectations for the timing of Bank Rate increases. Apart from that, there has been little general trend in rates during the current financial year. The policy of avoiding new borrowing by running down spare cash balances has served well over the last few years. However, this needs to be carefully reviewed to avoid incurring higher borrowing costs in the future when authorities may not be able to avoid new borrowing to finance capital expenditure and/or the refinancing of maturing debt;*
- *There will remain a cost of carry to any new long-term borrowing that causes a temporary increase in cash balances as this position will, most likely, incur a revenue cost – the difference between borrowing costs and investment returns.*

3.3 Y Strategaeth Fenthycyca

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn parhau i gynnal sefyllfa o dan-fenthycyca. Mae hyn yn golygu bod yr angen am fenthycyadau cyfalaf (sef y Gofyniad Cyllido Cyfalaf), heb ei ariannu'n llawn ac mae dyledion benthycyca wedi cael eu defnyddio fel mesur dros dro i gefnogi arian wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor. Mae'r driniaeth hon yn un ddarbodus oherwydd bod dychweliadau ar fuddsoddiadau yn isel a risg o ran gwrthbartïon yn uchel a bwriedir glynu wrthi lle mae'n briodol (gweler 3.3.1 isod am ddadansoddiad manylach o fenthycyca mewnol ac allanol). Fel rhan o'r strategaeth hon, mae'r gallu i fenthycyca'n allanol i ad-dalu'r arian wrth gefn a balansau petai raid, yn bwysig. Mae Tabl 3.1 yn dangos y byddai o bosib angen benthycyca £20.100m petai angen brys amdano. Dyma'r swm a ddefnyddiwyd o arian wrth gefn a balansau'r Cyngor yn y gorffennol i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn lle cymryd benthycyadau.

Yn erbyn y cefndir hwn a'r risgiau o fewn y rhagolygon economaidd, mabwysiedir dull darbodus o ran gweithgareddau trysorlys 2018/19. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol ac yn mabwysiadu dull pragmatig at amgylchiadau sy'n newid:-

- Os ceir teimlad bod risg sylweddol o GWYMP sydyn yn y cyfraddau tymor byr a thymor hir, e.e. oherwydd mwy o risg o ddisgyn yn ôl i ddirwasgiad neu risgiau datchwyddiant, yna bydd benthycyadau tymor hir yn cael eu gohirio ac ystyrir newid o gyllido cyfradd sefydlog i fenthycyca tymor byr os bydd yn gost-effeithiol i wneud hynny.
- Os ceir teimlad bod risg sylweddol o GYNNYDD llawer mwy yn y cyfraddau tymor hir a thymor byr na'r rhagolygon cyfredol, efallai oherwydd cyflymu'r dyddiad cychwyn a lefel y cynnydd mewn cyfraddau canolog yn y UDA a'r DU, cynnydd mewn gweithgareddau economaidd byd-eang neu gynnydd sydyn mewn risgiau chwyddiant, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hailasesu gyda'r tebygolrwydd o gyllido tymor sefydlog tra byddai cyfraddau llog yn parhau i fod yn is nac y byddent yn yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Adroddir ar unrhyw benderfyniadau i'r pwyllgor hwn ar y cyfle cyntaf.

3.3.1 Benthycyca Mewnol yn erbyn Benthycyca Allanol

Mae'r amodau cyfredol yn nodi bod angen agwedd hyblyg o ran y dewis rhwng benthycyca mewnol ac allanol. Mae llawer o'r ffactorau a oedd wrth wraidd y polisi blaenorol i allanoli'r holl fenthycyca yn parhau i fod yn ddilys, e.e. :-

- Gan fod y Gyfradd Banc a chyfraddau'r BBGC yn parhau i fod yn anarferol o isel yn hanesyddol, erys cyfle unigryw i awdurdodau lleol reoli eu strategaeth o gymryd benthycyadau allanol newydd.

Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau yn parhau mewn perthynas â'r dull hwn o weithredu, fel y dywedwyd eisoes, e.e.:-

- Gall y polisi olygu bod yn agored i risg credyd (e.e. risg y bydd y banc yn methu ar y ddyled), felly bydd raid rheoli'r elfen hon yn ofalus iawn;
- Rhaid parhau i roi sylw manwl i'r gwahaniaeth rhwng y cyfraddau benthycia a'r cyfraddau buddsoddi i sicrhau bod y Cyngor yn cael gwerth am arian unwaith y mae lefel briodol o reolaeth risg wedi ei chyrraedd i sicrhau diogelwch buddsoddiadau.

O blaid mewnnoli, dros y tymor canolig, disgwylir y bydd cyfraddau buddsoddi yn is na'r cyfraddau benthycia tymor hir. Mae hynny'n golygu bod ystyriaethau gwerth am arian yn awgrymu y gellid cael gwerth gorau trwy osgoi benthycia allanol newydd a thrwy ddefnyddio balansau arian parod mewnnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyled allanol sy'n aeddfedu (cyfeirir at hyn fel benthycia mewnnol). Byddai hynny'n sicrhau'r arbedion tymor byr mwyaf posib.

Fodd bynnag, rhaid pwysu a mesur arbedion tymor byr a geid trwy osgoi benthycia allanol tymor hir yn 2017/18 yn erbyn y posibilrwydd o gael costau tymor hir ychwanegol, trwy ohirio cymryd benthyciadau allanol newydd nad oes modd eu hosgoi tan yn hwyrach ymlaen pan ragwelir y bydd cyfraddau tymor hir y BBGC yn sylweddol uwch. Yn ychwanegol at hyn, bydd angen parhau i adolygu'n rheolaidd oblygiadau benthyciadau mewnnol ar lif arian a bydd hynny'n cyfyngu ar lefel bosib y benthycia mewnnol.

Yn erbyn y cefndir hwn, byddir yn wiliadwrus gyda gweithgareddau trysorlys 2018/19. Bydd y Swyddog Adran 151 yn monitro'r farchnad cyfraddau llog ac yn cymryd agwedd ymarferol tuag at amgylchiadau sy'n newid ac yn rhoi gwybod am unrhyw benderfyniadau i'r corff gwneud penderfyniadau priodol ar y cyfle cyntaf.

3.4 Y Polisi ynghylch Benthycia Ymlaen Llaw i gwrdd ag anghenion

Ni fydd y Cyngor yn benthycia mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthycia ymlaen llaw o fewn amcangyfrifon Gofynion Cyllido Cyfalaf a gymeradwywyd ymlaen llaw a bydd penderfyniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn ofalus i sicrhau bod modd dangos gwerth am arian a bod y Cyngor yn gallu sicrhau diogelwch arian o'r fath.

Wrth benderfynu a ddylid benthycia cyn bod angen gwneud hynny bydd y Cyngor yn:-

- sicrhau bod cyswllt clir rhwng y rhaglen gyfalaf a phroffil aeddfedrwydd y portffolio dyled cyfredol sy'n cefnogi'r angen i fenthycia cyn i'r angen godi;
- sicrhau bod cyfrifoldebau refeniw parhaus sy'n cael eu creu, a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau a chyllidebau'r dyfodol wedi eu hystyried;
- pwysu a mesur y ffactorau economaidd a marchnad a allai gael dylanwad ar ddull ac amseriad unrhyw benderfyniad i fenthycia;
- ystyried manteision ac anfanteision dulliau cyllido eraill;
- ystyried y cyfraddau llog eraill sydd ar gael, y cyfnodau mwyaf priodol i gyllido a'r proffiliau ad-dalu i'w defnyddio; a
- ystyried effaith benthycia ymlaen llaw ar falansau arian buddsoddi sy'n cynyddu dros dro (hyd nes y bydd angen cyllido gwariant cyfalaf) a'r ffaith y byddir yn fwy agored yn sgil hynny i risg gwrth barti, a risgiau eraill, a lefel risgiau o'r fath o gofio'r trefniadau sydd wedi eu sefydlu i'w cyfyngu i'r eithaf.

Bydd y risgiau sy'n gysylltiedig ag unrhyw weithgaredd benthycia cyn bod angen yn amodol ar werthusiad o flaen llaw ac adroddiadau dilynol drwy'r mecanwaith adrodd canol-blwyddyn neu flynyddol.

3.5 Ad-drefnu Dyled

Gan y bydd cyfraddau benthyca tymor byr yn sylweddol rhatach na chyfraddau llog tymor sefydlog hwy, efallai y bydd cyfleoedd i wneud arbedion trwy symud o ddyledion tymor hir i ddyled tymor byr. Fodd bynnag, bydd angen ystyried yr arbedion hyn yn wyneb sefyllfa gyfredol y trysorlys a maint a chost ad-dalu dyledion (h.y. y premiymau a godir).

Bydd y rhesymau dros unrhyw ad-drefnu yn cynnwys:-

- Cynhyrchu arbedion arian parod ac/neu arbedion llif arian gyda disgownt;
- Cynorthwyo i gwrdd â'r strategaeth trysorlys;
- Gwella balans y portffolio (diwygio'r proffil aeddfedu ac/neu falans yr anwadlwrwydd ariannol).

Rhoddir ystyriaeth hefyd i nodi a oes unrhyw bosibilrwydd o gwbl o wneud arbedion trwy adael i falansau buddsoddi ostwng trwy ad-dalu dyled yn gynnar oherwydd bod cyfraddau tymor byr ar fuddsoddiadau yn debygol o fod yn is na chyfraddau a delir ar ddyledion cyfredol.

Rhoddir gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am yr holl weithgareddau ad-drefnu dyled yn y cyfarfod nesaf wedi i hynny ddigwydd.

4. Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol

4.1 Polisi Buddsoddi

Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol ("y Canllawiau") a Chôd Ymarfer Diwygiedig CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol ynghylch Rheolaeth Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Nodiadau Canllawiau i'r Sectorau eraill ("Côd TM CIPFA"). Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor fydd diogelwch yn gyntaf, hylifedd yn ail ac wedyn elw.

Yn unol â'r canllawiau uchod gan Lywodraeth Cymru a CIPFA ac er mwyn gostwng risgiau i fuddsoddiadau i'r eithaf, mae'r Cyngor wedi nodi'n glir yr ansawdd credyd isaf sy'n dderbyniol yn achos gwrth-bartïon i'w cynnwys ar y rhestr er mwyn creu rhestr o wrth-bartïon sydd â theilyngdod credyd uchel sydd hefyd yn caniatáu arallgyfeirio ac atal risg dwysedd. Y cyfraddau allweddol a ddefnyddir i fonitro gwrth-bartïon yw'r cyfraddau Tymor Byr a Thymor Hir.

Fel o'r blaen, nid graddfeydd yn unig fydd yn penderfynu ar ansawdd sefydliad ac mae'n bwysig asesu a monitro'r sector ariannol yn barhaus ar sail micro a macro ac mewn perthynas â'r amgylcheddau economaidd a gwleidyddol y mae sefydliadau yn gweithredu y tu mewn iddynt. Bydd yr asesiad hefyd yn cymryd i ystyriaeth wybodaeth sydd yn adlewyrchu barn y marchnadoedd. I'r perwyl hwn, bydd y Cyngor yn ymgysylltu gyda'i ymgynghorwyr i fonitro prisiau marchnad fel trosglwyddo risgiau credyd ac yn troshaenu'r wybodaeth honno am ben y graddfeydd credyd.

Bydd ffynonellau gwybodaeth eraill a ddefnyddir yn cynnwys y wasg ariannol, prisiau cyfraddau a gwybodaeth arall mewn perthynas â'r sector bancio er mwyn sefydlu proses sgriwtini gadarn ynghylch addasrwydd gwrthbartïon buddsoddi positif.

Mae offerynnau buddsoddi a nodwyd i'w defnyddio yn y flwyddyn ariannol wedi eu rhestru yn Atodiad 5 dan y categorïau Buddsoddiadau 'Penodedig' a 'Amhenodedig'.

O bryd i'w gilydd, bydd y Cyngor hefyd yn gwneud benthyciadau, adneuon a buddsoddiadau i bwrpas darparu ei wasanaethau (buddsoddiadau polisi). Bydd y trafodion yma angen awdurdod y Cyngor Sir ar gyfer symiau dros £100k. Bydd yr holl drafodion yn amodol ar ansawdd credyd digonol a chymeradwyaeth y Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio Cyllid.

4.2 Polisi Teilyngdod Credyd

Y brif egwyddor sy'n rheoli meini prawf buddsoddi'r Cyngor yw diogelwch ei fuddsoddiadau er bod cynhyrchion neu ddychweliad ar fuddsoddiad hefyd yn ystyriaeth allweddol. Wedi rhoi sylw i hynny, bydd y Cyngor yn sicrhau:-

- Bod ganddo bolisi sy'n amlinellu'r categorïau o fuddsoddiadau y bydd yn buddsoddi ynddynt, y meini prawf ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi a chanddynt ddiogelwch digonol a monitro eu diogelwch. Nodir hyn yn yr adrannau isod sy'n ymwneud â buddsoddiadau penodedig ac amhenodedig; a
- Bod ganddo hylifedd digonol yn ei fuddsoddiadau. I'r perwyl hwn, bydd yn gosod allan y gweithdrefnau ar gyfer penderfynu am ba hyd y byddai'n ddoeth ymrwymo arian. Mae'r gweithdrefnau hyn hefyd yn berthnasol i ddangosyddion darbodus y Cyngor sy'n ymwneud ag uchafswm y symiau y gellir eu buddsoddi.

Bydd y Swyddog Adran 151 yn cynnal rhestr gwrthbartïon yn unol â'r meini prawf a osodir allan yn Atodiad 6 ac adolygir y meini prawf a'u cyflwyno i'r Cyngor eu cymeradwyo pan fo'r angen. Mae'r meini prawf hyn yn wahanol i'r rhai sy'n penderfynu ar y mathau o offerynnau buddsoddi sy'n benodedig neu'n amhenodedig oherwydd mae'n darparu cronfa gyffredinol o wrth-bartïon yr ystyrir eu bod o safon uchel ac y gall y Cyngor eu defnyddio yn hytrach na diffinio'r math o offerynnau buddsoddi y dylid eu defnyddio.

Caiff gwybodaeth am y graddfeydd credyd ei darparu gan Capita Asset Services, ein hymgynghorwyr trysorlys, yn achos yr holl wrth-bartïon sy'n cydymffurfio gyda'r meini prawf isod. Bydd unrhyw wrth-barti sy'n methu â bodloni'r meini prawf yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr gwrth-bartïon. Bydd manylion unrhyw newidiadau i'r graddfeydd (Watches), gwybodaeth ynghylch unrhyw newidiadau sy'n debygol (Outlook) a manylion mewn perthynas â newidiadau posibl yn y tymor hwy'n cael eu darparu i swyddogion bron ar unwaith wedi iddynt ddigwydd a rhoddir sylw i'r wybodaeth hon cyn delio. Er enghraifft os ceir gwybodaeth y bydd graddfa negyddol yn berthnasol i wrth-barti sydd yn cwrdd â lleiafswm meini prawf y Cyngor, gwaherddir eu defnyddio a bydd y cyfan o'r lleill yn cael eu hadolygu yn wyneb amodau'r farchnad.

Bydd yr holl raddfeydd credyd yn cael eu monitro'n ddyddiol. Bydd y Cyngor yn cael gwybod am unrhyw newidiadau i raddfeydd y 3 asiantaeth drwy ddefnyddio gwasanaeth teilyngdod credyd Capita.

Fel haen ychwanegol i'r meini prawf isafswm graddfa credyd a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor hwn hefyd yn defnyddio'r gwasanaeth teilyngdod credyd a ddarperir gan Capita Asset Services. Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio dull modelu soffistigedig gan ddefnyddio graddfeydd credyd gan y tair prif asiantaeth graddfeydd credyd - Fitch, Moody's a Standard and Poor's. Yn ychwanegol at hynny, cymerir y camau isod i asesu graddfeydd credyd gwrth bartïon:-

- Ystyrir rhagolygon credyd a gweithgareddau monitro credyd gan asiantaethau graddfeydd credyd;
- Trosglwyddo Risgiau Credyd i roi rhybudd buan am newidiadau tebygol mewn graddfeydd credyd;
- Graddfeydd sofran i ddewis gwrthbartïon o'r gwledydd sydd fwyaf teilwng i gredyd yn unig.

Mae'r dull modelu hwn yn cyfuno graddfeydd credyd, gweithgareddau monitro credyd a rhagolygon credyd mewn system sgorio sydd wedi ei phwysoli ac sydd wedi ei chyfuno wedyn gyda throshaen o TRC a fydd, yn y pen draw, yn cynhyrchu cyfres o godau lliw i nodi pa mor deilwng o gredyd yw gwrthbartïon. Mae'r codau lliw hyn yn cael eu defnyddio gan y Cyngor, gyda disgresiwn y Swyddog A 151, i gynorthwyo i benderfynu ar gyfnod amser y buddsoddiadau. Bydd y Cyngor, felly, fel arfer yn defnyddio gwrthbartïon o fewn y cyfnodau canlynol:-

- Melyn 5 mlynedd *
- Pinc tywyll 5 mlynedd – ar gyfer cronfeydd marchnad arian uwch (EMMFs) gyda sgôr credyd o 1.25
- Pinc golau 5 mlynedd – ar gyfer cronfeydd marchnad arian uwch (EMMFs) gyda sgôr credyd o 1.5
- Piws 2 flynedd
- Glas 1 flwyddyn (ond yn berthnasol i Fanciau DU a wladolwyd neu a led wladolwyd)
- Oren 1 flwyddyn
- Coch 6 mis
- Gwyrdd 100 diwrnod
- Dim Lliw Dim i'w ddefnyddio

Mae gwasanaeth teilyngdod credyd Capita Asset Services yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wybodaeth na'r graddfeydd sylfaenol yn unig a, thrwy ddefnyddio system sgorio pwysoliad risg, nid yw'n rhoi pwysau gormodol ar raddfeydd un asiantaeth yn unig.

Cyfeirir hefyd at ddata a gwybodaeth arall ynglŷn â'r farchnad fel y bydd ar gael ac fel sy'n briodol.

4.3 Cyfyngiadau Gwlad

Mae'r Cyngor wedi penderfynu na fydd ond yn defnyddio gwrthbartion cymeradwy o wledydd gyda graddfa credyd sofran o AA- yn ôl Graddfeydd Fitch (neu asiantaethau cyfatebol eraill os na fydd Fitch yn eu darparu). Fe welir rhestr o'r gwledydd sy'n gymwys trwy ddefnyddio'r meini prawf credyd hyn ar ddyddiad yr adroddiad yn Atodiad 7. Bydd swyddogion yn ychwanegu neu'n tynnu oddi ar y rhestr pe bai'r graddfeydd yn newid yn unol â'r polisi hwn.

4.4 Strategaeth Fuddsoddi

Cronfeydd mewnol: Bydd buddsoddiadau'n cael eu gwneud gan gyfeirio at y balans craidd a'r gofynion llif ariannol a'r rhagolygon o ran cyfraddau llog tymor byr (h.y. graddfeydd buddsoddi hyd at 12 mis).

Disgwyliadau o ddychweliadau ar fuddsoddiadau: Rhagwelir y bydd Graddfa Llog y Banciau yn aros fel y mae ar raddfa o 0.50% tan chwarter 4 2018 ac na fydd yn codi uwchlaw 1.25% erbyn chwarter 1 2021. Mae'r rhagolygon am raddfa'r Banc am y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ym Mawrth fel a ganlyn:-

- 2017/18 0.50%
- 2018/19 0.75%
- 2019/20 1.00%
- 2020/21 1.25%

Mae'r cyfraddau enillion a gyllidebwyd ar fuddsoddiadau am gyfnodau o hyd at gant o ddyddiau yn ystod pob blwyddyn ariannol am y pedair blynedd nesaf fel a ganlyn:-

2017/18 - 0.40%
 2018/19 - 0.60%
 2019/20 - 0.90%
 2020/21 - 1.25%
 2021/22 - 1.50%
 2022/23 - 1.75%
 2023/24 - 2.00%
 Blynnyddoedd diweddarach 2.75%

Mae cydbwysedd cyffredinol y risgiau i'r rhagolygon ar hyn o bryd yn gogwyddo at yr ochr olau ac yn dibynnu ar pa mor gryf mae twf CMC yn troi allan, pa mor gyflym y mae pwysau chwyddiant yn codi'n a pha mor gyflym y mae negodiadau Brexit yn symud ymlaen yn gadarnhaol.

Ar gyfer ei falansau sy'n cael eu cynhyrchu gan lif arian, bydd y Cyngor yn ceisio defnyddio ei gyfrifon busnes mynediad ar unwaith ac wrth gefn, ac adneuon cyfnod byr (dros nos i 100 diwrnod) er mwyn elwa o log cyfansawdd.

4.5 Adroddiad Buddsoddi Diwedd Blwyddyn

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, bydd y Cyngor yn adrodd yn ôl ar ei weithgareddau buddsoddi fel rhan o'i Adroddiad Trysorlys Blyneddol.

4.6 Rheolwyr Cronfeydd Allanol

Nid yw'r Cyngor wedi penodi rheolwyr cronfeydd allanol. Byddir yn cadw'r angen i wneud hyn dan sylw ac yn adrodd arno yn y modd priodol cyn y gwneir unrhyw benodiad o'r fath.

4.7 Polisi ar ddefnyddio Darparwyr Gwasanaeth Allanol

Er mwyn gallu prynu sgiliau ac adnoddau arbenigol, mae'r Cyngor yn defnyddio Capita Asset Services fel ei ymgynghorwyr allanol ar reoli'r trysorlys. Mae telerau eu penodiad a'r dulliau a ddefnyddir i asesu eu gwerth wedi'u cytuno a'u cofnodi'n gywir ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r cyfrifoldeb terfynol am benderfyniadau rheoli'r trysorlys yn parhau gyda'r Cyngor.

4.8 Dirprwyo

Fe welir cynllun dirprwyo Rheoli'r Trysorlys a rôl y Swyddog Adran 151 yn Atodiad 8.

ATODIADAU

1. Proffil aeddfedu benthyciadau
2. Datganiad Polisi DRI
3. Rhagolygon cyfraddau llog
4. Cefndir economaidd
5. Buddsoddiadau penodedig ac amhenodedig
6. Rheolau Gwrthbartion
7. Gwledydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer buddsoddiadau
8. Cynllun dirprwyo rheoli'r trysorlys a rôl y swyddog cyllid 151
9. Egwyddorion Allweddol Rheoli Trysorlys
10. Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys
11. Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys
12. Geirfa a gwybodaeth ar Dangosyddion Pwyllog a Rheoli Trysorlys

ATODIAD 1/APPENDIX 1

DADANSODDIAD BENTHYCIADAU YN AEDDFEDU 2017/18 YMLAEN GAN PWLB / PWLB LOANS MATURITY ANALYSIS 2017/18 ONWARDS						
	PWLB Aeddefedu/ PWLB Maturity £'000	PWLB EIP/ Annuity/ PWLB EIP/ Annuity £'000	Benthyciadau Marchnad/ Market Loans £'000	PWLB Amrywiol/ PWLB Variable £'000	Cyfanswm yn Aeddfedu/ Total Maturing £'000	%Yn Aeddfedu o'r Cyfran yn sefyll/ Maturing of Total Outstanding %
2017/18	0	5	0	0	0	0.0
2018/19	5,000	10	0	0	5,010	4.5
2019/20	5,000	11	0	0	5,011	4.5
2020/21	4,500	12	0	0	4,512	4.0
2021/22	0	14	0	0	14	0.0
2022/23	2,285	15	0	0	2,300	1.7
2023/24	1,854	16	0	0	1,870	2.1
2024/25	0	18	0	0	18	0.0
2025/26	0	20	0	0	20	0.0
2026/27	1,381	22	0	0	1,403	1.3
2027/28	2,165	24	0	0	2,189	2.0
2028/29	262	26	0	0	288	0.3
2029/30	1,539	21	0	0	1,560	1.4
2030/31	451	15	0	0	466	0.4
2031/32	1,941	9	0	0	1,950	1.7
2032/33	315	8	0	0	323	0.3
2033/34	637	0	0	0	637	0.6
2034/35	624	0	0	0	624	0.6
2035/36	611	0	0	0	611	0.5
2036/37	599	0	0	0	599	0.5
2037/38	587	0	0	0	587	0.5
2038/39	225	0	0	0	225	0.2
2039/40	5,000	0	0	0	5,000	4.5
2040/41	3,500	0	0	0	3,500	3.1
2042/43	1,000	0	0	0	1,000	0.9
2043/44	1,020	0	0	0	1,020	0.9
2044/45	1,010	0	0	0	1,010	0.9
2045/46	11,464	0	0	0	11,464	10.3
2050/51	2,000	0	0	0	2,000	1.8
2052/53	28,238	0	0	0	28,238	25.3
2054/55	3,000	0	0	0	3,000	2.7
2055/56	3,500	0	0	0	3,500	3.2
2056/57	5,000	0	0	0	5,000	4.5
2057/58	8,513	0	0	0	8,513	7.6
2059/60	1,763	0	0	0	1,763	1.6
2066/67	6,200	0	0	0	6,200	5.6
	111,184	246	0	0	111,430	100.0
Cyfartaledd bywyd (blynyddoedd)/ Average life(years)	23.12	8.13	0.00	0.00	23.09	
Cyfartaledd graddfa (%)/ Average rate (%)	5.26	9.41	0.00	0.00	5.15	

**PROFFIL AD-DALU BENTHYCIADAU ERAILL 2017/18 YMLAEN /
OTHER LOANS REPAYMENT PROFILE 2017/18 ONWARDS**

	Llywodraeth Cymru / Welsh Government	Benthycaf Salix Loan 1	Benthycaf Salix Loan 2	Benthycaf Salix Loan 3	Cyfanswm / Total	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
2017/18	40	8	0	0	48	
2018/19	40	16	46	0	102	
2019/20	40	16	46	80	182	
2020/21	40	16	46	80	182	
2021/22	0	16	46	80	142	
2022/23	0	16	46	80	142	
2023/24	0	16	45	79	140	
2024/25	0	8	45	79	132	
2025/26	0	0	45	79	124	
2026/27	0	0	0	79	79	

Datganiad Polisi Darpariaeth Refeniw Isafswm 2018/19

Rhaid i'r Cyngor dalu elfen o wariant cyfalaf y Cyngor sydd wedi cronni bob blwyddyn (y GAC) drwy daliad refeniw (y ddarpariaeth refeniw isaf) (DRI), er y caniateir iddo hefyd wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol os yw'n dymuno (darpariaeth refeniw wirfoddol) (DRW).

Yn unol â rheoliadau Llywodraeth Cymru, rhaid i'r Cyngor llawn gymeradwyo Datganiad GAC ymlaen llaw bob blwyddyn. Rhoddir nifer o opsiynau i gynghorau ar yr amod bod darpariaeth bwylloch. Argymhellir fod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad DRI isod:-

Ar gyfer gwariant cyfalaf a ddigwyddodd rhwng 1 Ebril 2008 a 31 Mawrth 2018, a gafodd ei gyllido trwy fenthycy gyda chymorth, polisi DRI fydd i godi tâl DRI ar y dull rhandaliad cyfartal, ar Sail Oes Ased dros 50 mlynedd. Mae'r DRI ar wariant cyfalaf sydd wedi ei gyllido drwy fenthycy di-gefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn wedi cael codi tâl yn defnyddio dull rhandaliad cyfartal, Sail Oes Ased gan ddefnyddio rhagdybiaeth o oes yr ased, yn seiliedig ar wybodaeth oedd ar gael ar yr amser. Mae'r newid yn y polisi yn adlinio y polisiau DRI ar gyfer asedau wedi eu cyllido drwy fenthycy a chefnogaeth ac asedau wedi eu cyllido drwy fenthyciadau di-gefnogaeth.

O'r 1af Ebrill 2018 am yr holl fenthycy gyda cefnogaeth a di-gefnogaeth (gan gynnwys PFI a Lês Cyllid), bydd polisi DRI hefyd yn Ddull Rhandaliad Blwydd-dal Cyfartal, sail oed yr ased. Fodd bynnag, bydd amcangyfrif o gyfnod oes, yn cael ei osod gan y Swyddog Adran 151 yn seiliedig a chynngor a dderbynwyd gan y swyddogion perthnasol a bydd yn ystyried cyfarwyddid Llywodraeth Cymru mewn perthynas a DRI a oes yr ased. Pan fo tir yn cael ei brynnu, bydd oed yr ased yn ddibynnol ar oes yr ased sydd yn cael ei roi ar y tir, yn rhan fwyaf o'r achosion, bydd rhain yn 50 mlynedd yn unol â oed ased adeiladau.

Ni fydd costau DRI yn seiliedig ar oed yr ased yn cael ei godi hyd nes fod blwyddyn yr ased yn dod yn weithredol. Gallai'r Swyddog Adran 151 ohirio cost DRI tan y flwyddyn gyllidol yn dilyn pan mae'r ased yn dod yn weithredol. Bydd amcangyfrif oes yr ased yn cael ei benderfynu yn y flwyddyn bydd y DRI yn dechrau ac ni fydd tâl ar oes yr ased. Bydd amcangyfrif o gyfnod oes yr ased, yn cael ei osod gan y Swyddog Adran 151 yn seiliedig a chynngor a dderbynwyd gan y swyddogion perthnasol a bydd yn talu sylw at Gofynion Statudol a cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â DRI a oes yr ased. Pan fo tir yn cael ei brynnu, bydd oed yr ased yn ddibynnol ar oes yr ased sydd yn cael ei roi ar y tir, yn rhan fwyaf o'r achosion, bydd rhain yn 50 mlynedd yn unol â oed ased adeiladau.

Oherwydd nad yw rhai mathau o wariant cyfalaf a wneir gan y Cyngor yn rhai y gellir eu cysylltu ag ased unigol, bydd bywydau ased yn cael eu hasesu ar sail sydd yn adlewyrchu'n fwyaf rhesymol y cyfnodau o fudd y rhagwelir y byddant yn codi o'r gwariant. Hefyd, pa fath bynnag o wariant ydyw, bydd yn cael ei grwpio gyda'i gilydd mewn dull sy'n adlewyrchu natur prif elfen y gwariant ac ni fydd yn cael ei rannu ond mewn achosion lle ceir dwy neu fwy o brif elfennau gyda bywydau economaidd defnyddiol sy'n sylweddol wahanol.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wneud taliadau gwirfoddol ychwanegol i leihau dyled os yn ddoeth i wneud hynny.

Mae rhan y Cyfrif Refeniw Tai o'r Gofyniad o ran Ariannu Cyfalaf yn gyffredinol yn destun taliad 2% DRI yn seiliedig ar y GAC ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol a hynny'n unol â'r cynllun busnes 30 blynedd a gymeradwywyd.

Bydd unrhyw ad-daliadau eraill sydd wedi eu cynnwys yn y PFI blynyddol neu brydlesau arian yn rhai GAC.

**Rhagolygon Graddfeydd Llog 2017/2021
Interest Rate Forecasts 2017/2021**

PWLB rates and forecast shown below have taken into account the 20 basis point certainty rate reduction effective as of the 1st November 2012.

Link Asset Services Interest Rate View														
	Dec-17	Mar-18	Jun-18	Sep-18	Dec-18	Mar-19	Jun-19	Sep-19	Dec-19	Mar-20	Jun-20	Sep-20	Dec-20	Mar-21
Bank Rate View	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.75%	0.75%	0.75%	0.75%	1.00%	1.00%	1.00%	1.25%	1.25%
3 Month LIBID	0.40%	0.40%	0.40%	0.40%	0.60%	0.60%	0.60%	0.70%	0.90%	0.90%	1.00%	1.20%	1.20%	1.20%
6 Month LIBID	0.50%	0.50%	0.50%	0.60%	0.80%	0.80%	0.80%	0.90%	1.00%	1.00%	1.10%	1.30%	1.30%	1.40%
12 Month LIBID	0.70%	0.80%	0.80%	0.90%	1.00%	1.00%	1.10%	1.10%	1.30%	1.30%	1.40%	1.50%	1.50%	1.60%
5yr PWLB Rate	1.50%	1.60%	1.60%	1.70%	1.80%	1.80%	1.90%	1.90%	2.00%	2.10%	2.10%	2.20%	2.30%	2.30%
10yr PWLB Rate	2.10%	2.20%	2.30%	2.40%	2.40%	2.50%	2.60%	2.60%	2.70%	2.70%	2.80%	2.90%	2.90%	3.00%
25yr PWLB Rate	2.80%	2.90%	3.00%	3.00%	3.10%	3.10%	3.20%	3.20%	3.30%	3.40%	3.50%	3.50%	3.60%	3.60%
50yr PWLB Rate	2.50%	2.60%	2.70%	2.80%	2.90%	2.90%	3.00%	3.00%	3.10%	3.20%	3.30%	3.30%	3.40%	3.40%
Bank Rate														
Link Asset Services	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.50%	0.75%	0.75%	0.75%	0.75%	1.00%	1.00%	1.00%	1.25%	1.25%
Capital Economics	0.50%	0.50%	0.75%	1.00%	1.25%	1.25%	1.50%	1.50%	1.75%	-	-	-	-	-
5yr PWLB Rate														
Link Asset Services	1.50%	1.60%	1.60%	1.70%	1.80%	1.80%	1.90%	1.90%	2.00%	2.10%	2.10%	2.20%	2.30%	2.30%
